

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Arolygiad Dirybudd o Urddas
a Gofal Hanfodol**

**Dyddiad yr arolygiad
25 a 26 Tachwedd 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Pennod	Rhif y dudalen
1. Cyflwyniad	1
2 Crynodeb Gweithredol	3
3. Canfyddiadau	5
Ward A (Trawma, Orthopedeg a Derbyniadau)	5
Ward C (Uned Fasgwlaidd)	13
4. Argymhellion	21
5. Y Camau Nesaf	25
Atodiad A – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal iechyd Cymru	26
Atodiad B – Y Cefndir a'r Fethodoleg ar gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	28
Atodiad C – Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	30

1. Cyflwyniad

1.1 Ar 25 a 26 Tachwedd 2012, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd yn Ysbyty Treforys yn Abertawe, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM).

Urddas a Gofal Hanfodol

1.2 Mae erthygl tri o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dweud na ddylai neb gael ei drin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol¹. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus yn y DU – gan gynnwys holl wasanaethau'r GIG – i drin pobl yn deg a chyfartal, ag urddas a pharch.

1.3 Mae urddas hefyd yn un o bum egwyddor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn, ac mae'n egwyddor allweddol sy'n sail i Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Yn 2007, lansiodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen '*Urddas mewn Gofal*' ar gyfer Cymru, sef menter sydd â'r nod o sicrhau na oddefir unrhyw achos o gam-drin pobl hŷn ac o ddiffyg parch tuag atynt yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

1.4 Yng nghyd-destun deddfwriaeth hawliau dynol y DU a rhyngwladol, a pholisi Llywodraeth Cymru, cychwynnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) raglen o '*Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol*' dirybudd ym mis Rhagfyr 2011 i adolygu'r gofal a roddir i bobl mewn ysbytai ledled Cymru, gan roi sylw arbennig i bobl hŷn. Mae'r rhaglen hon yn dilyn Archwiliadau ar Hap AGIC o Urddas a Pharch a gynhaliwyd yn ystod 2009 a 2010².

¹ Mae '*triniaeth annynol*' yn golygu triniaeth sy'n achosi niwed meddyliol neu gorfforol difrifol, ac mae '*triniaeth ddiraddiol*' yn golygu triniaeth sy'n ddybryd o fychanol a diurddas.

² I gael mwy o wybodaeth am Archwiliadau Urddas a Pharch ar Hap 2009-2010, ewch i <http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=47582>

Methodoleg yr Arolygiad

1.5 Mae'r 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' yn adolygu'r ffordd y cynhelir urddas claf mewn ward/uned ysbyty, a'r gofal nyrsio sylfaenol a dderbynnir gan y claf. Cesglir gwybodaeth trwy siarad â chleifion, perthnasau a staff, trwy adolygu cofnodion meddygol cleifion, a thrwy arsylwi.

1.6 Mae'r arolygiadau'n rhoi 'cipolwg' o'r gofal a dderbynnir gan gleifion ar wardiau/unedau ysbyty, ac fe allent amlygu materion ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas. Mae rhagor o wybodaeth am sut y cynhelir yr arolygiadau ar gael yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Ysbyty Treforys

1.7 Ceir tua 750 o welyau yn Ysbyty Treforys ac mae'n rhan o Fwrdd Iechyd PABM. Mae'r ysbyty yn darparu gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gofal yr Henoed, amrywiaeth o arbenigeddau Llawfeddygol/Wrolegol ac amrywiaeth o wasanaethau trydyddol arbenigol i ddalgylch eang. Ceir adran damweiniau ac achosion brys ar safle'r ysbyty a hon yw prif ganolfan trawma de-orllewin Cymru.

1.8 Ymwelwyd â dwy ward yn rhan o'r arolygiad hwn, Ward A (Trawma, Orthopedeg a Derbyniadau) a Ward C (Uned Fasgwlaidd).

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 Amlygodd ein hymweliad Arolygu Urddas a Gofal Hanfodol ag Ysbyty Treforys nifer o feysydd i'w gwella y mae angen i'r Bwrdd lechyd fynd i'r afael â hwy.

2.2 Roedd y prif faterion a amlygwyd yn ymwneud â chwblhau dogfennau sy'n rhan hanfodol o'r broses cyfathrebu gofal. Nodwyd nifer o bryderon, yn benodol:

- Roedd asesiadau cleifion ar gael; ond roedd cynnwys y rhain yn amrywio, gan ei gwneud yn anodd cael dealltwriaeth eglur o anghenion cleifion.
- Roedd cynlluniau gofal wedi'u sefydlu; fodd bynnag, nid oeddent wedi'u teilwra i unigolion gan nodi anghenion a datblygiad penodol y cleifion.
- Prin oedd y dystiolaeth bod trafodaethau ar ofal a thriniaeth wedi'u cynnal gyda chleifion a, phan yn briodol, eu perthnasau.
- Sawl enghraifft o ddogfennau cleifion yn cael eu cwblhau'n ôl-weithredol gan aelodau staff. Trwy gwblhau cofnodion yn ôl-weithredol, gallant fod yn anghyflawn neu gael eu cwblhau'n anghywir ac felly nid yw aelodau staff nyrsio/meddygol yn cael eu hysbysu'n llawn am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.
- Roedd ffurflenni DNAR ar gael yn ffeiliau rhai cleifion, yn nodi na ddylid ceisio eu dadebru; fodd bynnag, gwelwyd ffurflenni anghyflawn mewn ffeiliau cleifion ar y ddwy ward, heb unrhyw dystiolaeth y cynhaliwyd trafodaethau gyda'r claf a/neu berthnasau'r claf.

2.3 Amlygwyd materion y mae angen i'r Bwrdd lechyd roi sylw iddynt ar unwaith yn ystod ein hymweliad hefyd:

- Roedd llawer iawn o annibendod ar y wardiau ac roeddem yn poeni'n benodol bod mynediad at ddrysau tân ar y ddwy ward wedi'i gyfyngu gan fod offer ward o flaen yr allanfa.
- Roedd perygl y gallai personél heb ganiatâd a chleifion gael gafael ar feddyginiaeth gan i ni nodi nad oedd rhai cypyrddau cyffuriau ar y ddwy ward na'r oergell gyffuriau ar Ward C wedi'u cloi. Hefyd, yn ystod y rownd

feddyginiaeth ar Ward C, gwelsom aelodau staff yn gadael meddyginiaeth ar y byrddau wrth ymyl y gwelyau ar sawl achlysur heb edrych arnynt yn ei chymryd.

2.4 Er y problemau uchod yn ystod ein hamser ar y wardiau, gwelsom enghreifftiau niferus o aelodau staff yn rhyngweithio â chleifion mewn ffordd ofalgar a sensitif. Hefyd, roedd y cleifion y siaradwyd â hwy yn canmol agwedd aelodau'r staff a'u hymddygiad tuag atynt.

2.5 Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i Abertawe Bro Morgannwg, ac yn enwedig aelodau'r staff ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy, a oedd yn hynod o barod i gynorthwyo trwy gydol ein harolygiad.

3. Canfyddiadau

3.1 Rydym wedi strwythuro ein canfyddiadau o'r arolygiad o amgylch y meysydd allweddol Urddas a Gofal Hanfodol ar gyfer pob uned yr ymwelwyd â hi. Nodir yr argymhellion sy'n deillio o'r canfyddiadau hyn yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

Ward A (Trawma, Orthopedeg a Derbyniadau)

Amgylchedd y Ward

3.2 Roedd y ward yn amlwg yn lân ac nid oedd annibendod yng nghilfachau'r cleifion. Fodd bynnag, roedd llawer iawn o annibendod yn y coridorau ac o flaen pob allanfa dân, ac roedd hyn yn achosi problem ddiogelwch. Roedd y cleifion y siaradwyd â hwy yn fodlon ar lendid y cilfachau; fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod annibendod yn broblem ar weddill y ward.

3.3 Prin oedd y lle storio ar y ward; roedd aelodau'r staff yn defnyddio'r ystafelloedd storio offer i storio eu heiddo personol eu hunain pan roeddent ar ddyletswydd.

3.4 Roedd cloeon priodol ar doiledau'r ward ac roeddent wedi'u neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan gleifion bod y toiledau'n cael eu defnyddio gan y ddau ryw, er yr arwyddion. Nodwyd problem gennym hefyd o ran cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion pan fyddant yn defnyddio'r toiledau ar y ward. Yn benodol yn ystod ein hymweliad, galwodd un claf a oedd yn defnyddio'r toiled am gymorth ac roedd modd gweld y claf yn eistedd ar y toiled pan agorodd y nyrs y drws.

3.5 Roedd posteri wedi'u harddangos yn hyrwyddo'r fenter peg urddas³ a gwelsom y pegiau'n cael eu defnyddio i roi gwybod i eraill bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu y tu ôl i lenni wedi'u cau.

3.6 Roedd y cilfachau ar y ward wedi'u neilltuo ar gyfer un rhyw yn unig ond, yn ystod ein hymweliad, rhoddwyd dyn mewn cilfach i fenywod, yn annisgwyl, oherwydd prinder lle ar y ward. Dywedodd aelodau'r staff wrthym y gall hyn fod yn broblem ar adegau.

3.7 Nid oedd unrhyw ystafell ddydd ar gael i'r cleifion. Dywedodd aelodau'r staff wrthym y collwyd yr ystafell ddydd pan ehangwyd y ward o 18 i 27 o welyau yn ddiweddar.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff, a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.8 Gwelsom aelodau staff yn rhyngweithio â chleifion ac yn darparu gofal mewn ffordd ofalgar a sensitif ac roedd y cleifion y siaradwyd â hwy yn gadarnhaol ynglŷn ag agwedd aelodau'r staff. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon am arweinyddiaeth ar y ward, gan nad oeddem yn gallu gweld pwy oedd yn cyfarwyddo'r tîm nyrsio ar ddiwrnod ein hymweliad.

3.9 Gwelsom rai aelodau staff yn galw cleifion yn '*love*' a '*flower*' yn aml, a allai fod yn sarhaus i rai cleifion er y'i bwriadwyd mewn ffordd garedig. Hefyd, er bod nodiadau un claf yn dweud ei bod yn lleian a bod yn well ganddi gael ei galw'n '*Sister*', gwelsom aelodau staff yn defnyddio ei henw cyntaf.

3.10 Dangosodd aelodau'r staff ymwybyddiaeth dda o'r angen am ddisgresiwn wrth gyfathrebu gwybodaeth am y cleifion. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, gellid clywed sgwrs ffôn yng ngorsaf y nyrsys er ei bod yn ymwneud â gwybodaeth sensitif am un o'r cleifion.

³ Nod y fenter peg coch yw sicrhau bod llenni o amgylch gwelyau yn cael eu cau'n iawn yn ogystal â rhybuddio aelodau staff bod gofal personol yn cael ei ddarparu y tu ôl i'r llenni.

3.11 Cawsom wybod gan nifer o aelodau staff y siaradwyd â hwy eu bod ar ormod o frys y rhan fwyaf o'r amser ac felly nad oedd ganddynt unrhyw amser i'w dreulio gyda'r cleifion i ddiwallu eu holl anghenion gofal personol fel torri ewinedd traed.

3.12 Nodwyd gennym wrth arsylwi nad oedd holl aelodau'r staff a oedd ar ddyletswydd ar y ward yn gwisgo bathodyn adnabod fel ffordd o roi gwybod pwy oeddent.

Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd Neu Sydd â Dementia

3.13 Gwelsom aelodau staff yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at gleifion ddryslyd neu â dementia. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fentrau wedi'u sefydlu ar y ward i nodi cleifion ddryslyd neu â dementia er mwyn cynorthwyo'r aelodau staff sy'n gofalu am y cleifion hyn. Er hynny, dywedwyd wrthym bod Prif Nyrs y Ward wedi'i hyfforddi fel hyrwyddwr dementia. Fe'n hysbyswyd gan y Bwrdd Iechyd, yn ystod y cyfarfod adborth, y disgwylir i'r Cynllun Pili Pala⁴ gael ei gyflwyno mewn wardiau yn Ysbyty Treforys maes o law.

3.14 Nid oedd arwyddion lluniau mawr ar gyfleusterau'r cleifion i'w cynorthwyo, a'r rhai â dementia yn enwedig, i ddod o hyd iddynt.

Cynllunio a Darparu Gofal

3.15 Roedd asesiadau cleifion wedi'u sefydlu ond roedd ansawdd a chyfanswm y cynnwys yn amrywio; roedd y mwyafrif wedi'u cwblhau'n arwynebol gan ei gwneud yn anodd deall anghenion y cleifion. Nid oedd yn eglur chwaith o'r dogfennau a oedd ar gael sut roedd yr asesiadau'n llywio cynllun gofal y cleifion.

3.16 Roedd cynlluniau gofal craidd wedi'u sefydlu ar gyfer y cleifion. Fodd bynnag nid oedd y cynlluniau hyn wedi'u teilwra i unigolion er mwyn nodi statws a datblygiad

⁴ Mae'r Cynllun Pili Pala yn galluogi pobl y mae dementia wedi effeithio ar eu meddyliau'n barhaol i wneud hyn yn eglur i aelodau staff yr ysbyty ac yn rhoi strategaeth syml ac ymarferol i aelodau staff ddiwallu eu hanghenion.

y claf penodol. Hefyd, nid oedd y cynlluniau gofal a oedd wedi'u sefydlu yn cynnig disgrifiad o lefel yr ymyriad a'r cymorth sydd ei hangen.

3.17 Ar ddiwedd y cyfnod ymweld, gwelsom nifer o berthnasau yn aros wrth orsaf y nyrsys i siarad â nyrs. Siaradwyd â rhai o'r perthnasau hyn a oedd yn poeni nad oeddent wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â gofal a thriniaeth. Prin oedd y dystiolaeth yn y dogfennau a adolygwyd gennym i ddangos bod unrhyw drafodaethau o'r fath wedi'u cynnal.

Rheoli Cofnodion

3.18 Roedd system dda a hawdd ei dilyn wedi'i sefydlu ar gyfer rheoli cofnodion. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, roedd problemau yn ymwneud â chynnwys y cofnodion h.y. gwybodaeth gyfyngedig mewn asesiadau a chynlluniau gofal. Nodwyd enghreifftiau o ddogfennau anghyflawn ac achosion lle y cwblhawyd dogfennau'n ôl-weithredol gan aelodau staff. Gallai hyn arwain at gofnodion anghywir ac felly'r posibilrwydd y byddai aelodau staff nyrsio/meddygol eraill yn cael eu camarwain ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.

3.19 Fe'n hysbyswyd ar ddiwrnod ein hymweliad (dydd Sul) nad oedd derbynnydd ar ddyletswydd ar y ward. Dywedodd aelodau'r staff wrthym fod hyn yn golygu mai hwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau gweinyddol, gan nodi bod hyn yn bwysau ychwanegol gan ei fod yn eu tynnu oddi wrth welyau'r cleifion. Roedd hon yn broblem benodol i'r ward gan ei bod yn ward dderbyn, â throsiant cleifion cyflym.

3.20 Adolygwyd cofnod un claf gennym, a nodwyd na ddylid ceisio'i ddadebru (DNAR), ond gan fod y ffurflen yn anghyflawn nid oedd yn eglur a gafwyd trafodaeth gyda'r claf a/neu deulu'r claf.

Hylif a Maeth

3.21 Roedd amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu ar waith ar y ward rhwng 12:15 a 13:00. Fodd bynnag, dywedodd aelodau staff wrthym y gallai'r droli fwyd gyrraedd unrhyw adeg rhwng 12:00 a 13:00. Cyrhaeddodd y droli fwyd am 12:35 ar

ddiwrnod ein hymweliad. Mae'r ansicrwydd o ran pryd y bydd y bwyd yn cyrraedd yn achosi problemau wrth drefnu'r broses. Hefyd, gallai'r bwlch rhwng prydau bwyd cleifion fod yn fach iawn os bydd y cinio'n cyrraedd yn hwyrach.

3.22 Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw aelod o staff yn arwain y broses yn ystod amser prydau bwyd, ac roedd hyn yn golygu bod y system ar gyfer paratoi cleifion a dosbarthu prydau bwyd yn ymddangos yn anhrefnus. Ni welsom aelodau staff yn cynorthwyo cleifion i symud eu i safle mwy cyfforddus i fwyta, ac ni welsom annibendod yn cael ei glirio oddi ar fyrddau'r cleifion, gan ei gwneud yn anodd i rai cleifion gyrraedd eu bwyd. Gwelsom un claf mewn ffrâm wddf yn cael trafferth yn symud eitemau oddi ar ei bwrdd fel y gallai gyrraedd ei phryd bwyd. Yn y pen draw, gofynnodd y claf i'r aelod o staff domestig ei chynorthwyo i glirio'r bwrdd.

3.23 Roedd y system hambwrdd coch ar waith a oedd â'r nod o gynorthwyo aelodau staff i nodi pa gleifion oedd ag angen cymorth i fwyta eu prydau bwyd; fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod dealltwriaeth aelodau'r staff o ddiben y system yn amrywio.

3.24 Cafodd mwyafrif y cleifion a oedd ag angen cymorth i fwyta eu prydau bwyd eu cynorthwyo gan aelodau'r staff. Fodd bynnag, gwelsom un claf y bu'n rhaid iddo aros 30 munud cyn cael ei gynorthwyo gan aelod o'r staff. Ni ofynnwyd i glaf arall a oedd angen cymorth arni, er bod ei braich mewn plastr. Gwelsom hefyd na dderbyniodd rhai cleifion y cymorth yr oedd ei angen arnynt i dorri eu bwyd, er eu bod yn gallu bwyta'n annibynnol.

3.25 Mae aelodau'r staff domestig yn casglu hambyrddau'r cleifion ar ôl amser prydau bwyd. Nodwyd gennym bod faint yr oedd cleifion wedi'i fwyta yn cael ei gofnodi ar siartiau bwyd; fodd bynnag, roedd y siartiau bwyd yn cael eu cwblhau'n anghyson.

3.26 Roedd jygiau a chwpanau dŵr o fewn cyrraedd cleifion; fodd bynnag, ni welsom aelodau'r staff yn annog cleifion i yfed fel mater o drefn.

Briwiau Pwyso

3.27 Roedd croesau diogelwch⁵ ar waith ar y ward; fodd bynnag, nid oeddent yn gyfredol.

3.28 Cynhelid asesiadau risg Waterlow⁶ ar gyfer y cleifion ac mae'r bwndeli SKIN⁷ wedi cael eu cynnwys yn rownd SAFE⁸ y ward. Fodd bynnag, amlygodd ein hadolygiad o gofnodion cleifion nad oedd yr holl asesiadau Waterlow wedi'u cwblhau. Nodwyd hefyd yng nghofnodion rhai cleifion a oedd mewn perygl mawr o ddatblygu briwiau pwyso, nad oeddent yn cael eu troi yn ystod y nos bob amser gan eu bod yn cysgu. Mae angen trafod y penderfyniad i beidio â throï'r claf yn ystod y nos, a dod i gytundeb gyda'r claf yn seiliedig ar risg. Hefyd, dylid cofnodi'r rhesymau am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio'n llawn â'r bwndel SKIN.

3.29 Dywedodd aelodau'r staff wrthym fod y matresi/clustogau priodol ar gael pan asesir bod cleifion mewn perygl mawr o ddatblygu briwiau pwyso. Fe'n hysbyswyd hefyd bod mynediad at fatresi pwyso yn dda.

Gofal a Hyllendid Personol

3.30 Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn lân ac yn derbyn gofal da. Er enghraifft, roedd gwallt ac ewinedd cleifion yn ymddangos yn lân ac roedd y dynion wedi'u heillio. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, dywedodd rhai aelodau staff wrthym eu bod yn teimlo ar ormod o frys i allu canolbwyntio ar anghenion gofal personol cleifion weithiau.

3.31 Fe'n hysbyswyd y gofynnir i gleifion yn y bore beth hoffent ei wisgo, ac roedd mwyafrif y cleifion yn eu dillad eu hunain yn ystod ein hymweliad. Roedd dillad y

⁵ Dull yw croes ddiogelwch i godi ymwybyddiaeth o fewn timau o faint o wlserau sy'n datblygu yn yr ardal ofal, a hefyd i hybu arfer da.

⁶ Dull polisi ar gyfer asesu risg/atal wlserau pwyso yw'r 'Waterlow'.

⁷ Dull holistaidd syml o sicrhau bod y cleifion i gyd yn derbyn y gofal priodol i atal niwed gan friwiau pwyso.

⁸ System strwythuredig yw SAFE Round ar gyfer archwilio pob claf yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu hanghenion gofal sylfaenol yn cael eu diwallu.

cleifion yn ymddangos yn lân, ond ar ôl amser cinio sylwyd ar un fenyw a oedd yn gwisgo ffrâm wddf fudr.

3.32 Cyn amser y pryd bwyd, gwelsom aelod o'r staff yn cynnig hancesi gwlyb i'r cleifion lanhau eu dwylo. Fodd bynnag, ni chynigiwyd hancesi gwlyb i'r cleifion i gyd.

3.33 Cawsom wybod, wrth drafod gyda rhai cleifion ar y ward, nad oeddent yn gallu ymolchi a glanhau eu dannedd mor rheolaidd ag yr hoffent. Cwblhawyd dogfennau yn ôl-weithredol gan aelodau staff, i nodi tystiolaeth bod gofal personol wedi'i ddarparu.

3.34 Roedd cyflenwadau dillad gwely a llieiniau ar y ward yn briodol ar ddiwrnod ein hymweliad (dydd Sul). Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan rai aelodau staff bod diffyg dillad gwely weithiau, yn enwedig ar benwythnosau a boreau dydd Llun.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

3.35 Cyflawnwyd y drefn o fynd i'r toiled mewn ffordd synhwyrol a sensitif gan aelodau'r staff. Gwelsom gleifion yn cael eu cynorthwyo gan aelodau'r staff i fynd i'r toiled a dod yn ôl yn brydlon, gan ddefnyddio cymhorthion codi a symud priodol. Darparwyd comodau i'r cleifion a oedd yn cael trafferth symud hefyd.

3.36 Cawsom wybod gan y cleifion y siaradwyd â hwy fod aelodau'r staff yn eu helpu mewn ffordd sensitif i ddefnyddio'r toiled yn y dull o'u ddewis.

3.37 Roedd comodau ar gael ar y ward, ond nodwyd gennym nad oedd un o'r comodau wedi cael ei lanhau'n iawn.

Seinyddion

3.38 Roedd seinydd ar gael i'r cleifion i gyd, a hwnnw o fewn eu cyrraedd. Gwelsom aelodau'r staff yn ateb seinyddion yn brydlon pan roedd cleifion yn eu defnyddio. Hefyd, roedd seinyddion argyfwng ar gael yn holl doiledau'r cleifion.

3.39 Dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy fod aelodau'r staff yn ateb seinyddion ar y ward yn brydlon.

Cyfathrebu

3.40 Roedd yr aelodau staff y siaradwyd â hwy yn gwybod sut i ddefnyddio Language Line ac esboniwyd bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i siarad â chleifion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gymhorthion cyfathrebu eraill ar gael ar y ward, fel Braille neu system dolen sain, i gynorthwyo'r cleifion hynny â namau ar y synhwyrau.

3.41 Fel y nodwyd yn flaenorol, fe'n hysbyswyd gan gleifion a pherthnasau nad ydynt yn cael eu cynnwys rhyw lawer yn y gofal a'r driniaeth. Hefyd, prin oedd y cofnodion yn nodiadau'r cleifion i ddangos bod trafodaethau wedi'u cynnal.

Rheoli Meddyginiaethau a Rheoli Poen

3.42 Ni chododd y cleifion y siaradwyd â hwy ar y ward unrhyw faterion yn ymwneud â rheoli poen; roedd meddyginiaeth lladd poen yn cael ei darparu yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd unrhyw ddulliau asesu poen (mesuriadau o ddifrifoldeb poen ac effeithiolrwydd meddyginiaeth lladd poen) yn cael eu defnyddio ar y ward.

3.43 Roedd yr oergell gyffuriau wedi'i chloi, ond roedd yn destun pryder i ni nodi bod rhai o'r cypyrddau cyffuriau yn cael eu gadael heb eu cloi. Hysbyswyd Prif Nyrs y Ward am hyn ar unwaith a chymerodd gamau ar unwaith.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

3.44 Fel y nodwyd yn flaenorol, codwyd pryderon gan gleifion a pherthnasau ynglŷn â'r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys cyn lleied mewn trafodaethau ar gynlluniau gofal. Dywedodd llawer o'r cleifion y siaradwyd â hwy nad oeddent wedi cael gwybod gan aelodau'r staff pryd y gallent ddisgwyl gael eu rhyddhau o'r ward a beth fydd yn digwydd pan fyddant yn cael eu rhyddhau.

Gweithgareddau

3.45 Gall gweithgareddau hamdden a gynhelir ar wardiau ysbyty (gan gynnwys gemau bwrdd, cardiau a bingo) roi cyfle i gleifion wella ansawdd eu bywyd trwy deimlo bod ganddynt fwy o reolaeth a chefnogaeth gymdeithasol, a thrwy iddynt gymdeithasu mwy a chyflawni amcanion sy'n canolbwyntio ar gwblhau gorchwylion. Gall hyn hefyd helpu pobl sy'n agored i niwed ddatblygu neu ailsefydlu sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd a reolir. Mae gwaith ymchwil⁹ wedi dangos bod gweithgareddau a gynhelir ar wardiau ysbyty yn cael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar gleifion mewnol, gan gynnwys:

- Peri newidiadau ffisiolegol a seicolegol cadarnhaol mewn canlyniadau clinigol.
- Lleihau'r defnydd o gyffuriau.
- Cwtogi'r cyfnod y maent yn aros yn yr ysbyty.
- Hybu gwell perthynas rhwng meddygon a chleifion.
- Gwella iechyd meddwl.

3.46 Roedd setiau teledu ar gael ym mhob cilfach yn ogystal â rhai llyfrau. Fodd bynnag, nid oedd ystafell ddydd na dim arall i ddiddanu na gweithgareddau ar gael i gleifion ar y ward.

Ward C (Uned Fasgwlaidd)

Amgylchedd y Ward

3.47 Roedd y ward yn amlwg yn lân, ond nodwyd nifer o fannau yr oedd angen eu hailwampio, gan gynnwys y silffoedd yn yr ystafell olchi yr oedd angen eu newid oherwydd difrod dŵr. Roedd llawr wedi'i staenio a llwydni ar y growt yn yr ystafell gawod hefyd. Dywedodd yr uwch nyrs ar y ward wrthym ei bod yn ymwybodol o'r problemau a nodwyd ac mae'r mannau'n disgwyl i gael eu hailwampio ar hyn o bryd.

⁹ Cymdeithas Feddygol Prydain, *'The psychological and social needs of patients,'* mis Ionawr 2011.

3.48 Roedd cilfachau'r cleifion yn gymharol rydd o annibendod ond, yn yr un modd â Ward A, roedd yn destun pryder i ni nodi bod llawer iawn o annibendod o flaen yr allanfeydd tân a fyddai wedi creu oedi pe byddai'n rhaid dianc o'r ward ar frys.

3.49 Ni chododd y cleifion y siaradwyd â hwy unrhyw faterion yn ymwneud â glendid y ward.

3.50 Roedd yr holl doiledau wedi'u neilltuo ar gyfer dynion neu fenywod ac roedd gan ddrysau'r holl doiledau gloeon priodol arnynt. Fodd bynnag, roedd dynion a menywod yn rhannu'r ystafell gawod a'r ystafell ymolchi.

3.51 Gwelsom aelodau'r staff yn sicrhau bod llenni wedi'u cau'n gyfan gwbl o amgylch gwelyau cleifion, a chaewyd drysau ystafelloedd ochr cyn darparu unrhyw ofal neu driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth y defnyddid unrhyw arwyddion i roi gwybod i eraill bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu.

3.52 Nid oedd unrhyw ystafell ddydd ar gael i gleifion ei defnyddio ar y ward.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff, a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.53 Gwelsom aelodau'r staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd ofalgar a chwrtais. Dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy fod aelodau'r staff yn gwrtais â hwy a'u perthnasau bob amser.

3.54 Yn gyffredinol, roedd aelodau'r staff yn ymwybodol o'r angen am ddisgresiwn wrth drafod gwybodaeth sensitif am gleifion. Fodd bynnag, dywedodd un claf wrthym mai'r tro cyntaf iddo glywed bod posibilrwydd y byddai angen torri un o'i aelodau i ffwrdd oedd pan glywodd sgwrs ffôn yng ngorsaf y nyrsys.

3.55 Roedd y lefelau staffio yn ddigonol ar ddiwrnod ein harolygiad ac fe'n hysbyswyd gan aelodau'r staff eu bod yn teimlo bod lefelau staffio yn ddigonol ar y ward fel rheol.

3.56 Nodwyd wrth arsylwi nad oedd yr holl aelodau staff ar ddyletswydd ar y ward yn gwisgo bathodyn adnabod fel ffordd o ddangos pwy oeddent.

Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd Neu Sydd â Dementia

3.57 Nid oedd unrhyw fentrau wedi'u sefydlu ar y ward yn ymwneud ag anghenion gofal cleifion dryslyd neu sydd â dementia, er i ni weld claf â dementia yn derbyn gofal mewn ffordd sensitif. Roedd y claf, yn rhan o'i chyflwr, yn dangos ymddygiad cerdded archwiliadol (y cyfeirir ato'n gyffredin fel '*crwydro*') a chafodd ei thrin yn gwrtais a chydag urddas. Fel y nodwyd yn flaenorol, fe'n hysbyswyd yn ystod y cyfarfod adborth y disgwylir i'r Cynllun Pili Pala gael ei sefydlu yn Ysbyty Treforys maes o law.

3.58 Roedd arwyddion lluniau mawr ar gael ar doiledau ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion i'w cynorthwyo i ddod o hyd i'r cyfleusterau.

Cynllunio a Darparu Gofal

3.59 Roedd asesiadau cleifion ar gael; fodd bynnag, roedd y manylion yn yr asesiadau yn amrywio.

3.60 Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da; fodd bynnag, nid oedd y gofal a ddarparwyd yn cael ei gofnodi'n gyson yn nodiadau'r cleifion gan fod aelodau'r staff yn cwblhau'r dogfennau'n ôl-weithredol.

3.61 Roedd rowndiau SAFE yn cael eu cynnal ar y wardiau; fodd bynnag, câi siartiau cydymffurfio'r rowndiau SAFE eu cwblhau ar gyfer pob cilfach ac nid pob claf. Nodwyd gennym hefyd nad oedd rhai o'r siartiau wedi cael eu diweddarau ers nifer o ddiwrnodau.

3.62 Roedd cynlluniau gofal cleifion ar gael; fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau gofal wedi'u teilwra i unigolion i gynnwys a mynd i'r afael ag anghenion penodol y claf. Dywedodd cleifion wrthym, wrth drafod, fod aelodau'r staff yn eu cynnwys mewn

trafodaethau ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth; fodd bynnag, nid oedd trafodaethau o'r fath i'w gweld mewn dogfennau.

Rheoli Cofnodion

3.63 Roedd siartiau wrth erchwyn y gwelyau yn anhrefnus, gan ei gwneud yn anodd deall cofnod y claf. Ar ôl trafod â phrif nyrs y ward, cawsom wybod ei bod yn ymwybodol o'r mater hwn ac wrthi'n mynd i'r afael ag ef.

3.64 Amlygwyd achosion gennym ar sawl achlysur lle cwblhawyd dogfennau cleifion yn ôl-weithredol gan aelodau'r staff. Gall hyn arwain at gofnodion anghywir ac anghyflawn ac felly'r posibilrwydd y bydd aelodau staff nyrsio/meddygol eraill yn cael eu camarwain ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.

3.65 Yn yr un modd â Ward A, adolygwyd ffeil un claf y nodwyd na ddylid ceisio'i ddadebru (DNAR), ond gan fod y ffurflen yn anghyflawn nid oedd yn eglur a gafwyd trafodaeth gyda'r claf a/neu deulu'r claf.

Hylif a Maeth

3.66 Yn yr un modd â Ward A, roedd amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu ar waith ar y ward rhwng 12:15 a 13:00. Yn ystod yr amser pryd bwyd wedi'i ddiogelu pan roeddem ni ar y ward, roedd ymgynghorydd yn cynnal rownd. Trwy siawns, ni chyrhaeddodd y droli fwyd ar y ward tan 13:00, felly nid amharodd rownd yr ymgynghorydd ar y cleifion wrth iddynt fwyta eu prydau bwyd ar yr achlysur hwn.

3.67 Gwelsom yn ystod y pryd bwyd fod mwyafrif y cleifion yn eistedd yn eu cadeiriau wrth ymyl y gwely. Ni pharatowyd y cleifion cyn gweini'r prydau bwyd. Ni symudwyd y cleifion a oedd yn eu gwelyau i safle mwy cyfforddus tan i'w prydau gael eu gweini. Ni chafodd y byrddau wrth ymyl gwelyau'r cleifion eu glanhau/clirio ac roeddent yn dal i fod yn anniben pan roddwyd hambyrddau bwyd arnynt.

3.68 Dywedodd aelodau staff a chleifion ar y ward wrthym, mewn trafodaethau, nad y bwyd a archebir sy'n cael ei weini bob amser, ac y gall fod yn oer weithiau.

3.69 Nid oedd unrhyw system wedi'i sefydlu i nodi'r cleifion a oedd ag angen cymorth i fwyta eu prydau neu i yfed diodydd. Fodd bynnag, gwelsom gleifion a oedd angen help gyda'u prydau bwyd yn derbyn cymorth. Hefyd, gallai perthnasau'r cleifion ddod i'r ward yn ystod amser y pryd bwyd i gynorthwyo gyda bwydo.

3.70 Casglwyd hambyrddau'r cleifion gan y cynorthwyywyr nyrsio ar ôl y pryd bwyd. Fodd bynnag, nid oedd siartiau hylif a maeth yn cael eu cwblhau'n gyson gan aelodau'r staff.

3.71 Roedd jygiau a chwpanau dŵr ar gael i'r cleifion ac wedi'u rhoi o fewn eu cyrraedd. Fodd bynnag, ni welsom aelodau'r staff yn annog cleifion i yfed fel mater o drefn.

3.72 Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn cynnwys asesiadau maeth wedi'u cwblhau, a chânt eu hadolygu'n wythnosol.

Briwiau Pwyso

3.73 Roedd asesiadau risg Waterlow ar gael; fodd bynnag, nid oeddent wedi'u cwblhau'n gyson gan aelodau'r staff.

3.74 Roedd y bwndel SKIN ar waith ac roedd y cleifion yn derbyn y gofal angenrheidiol i atal niwed gan friwiau pwyso. Fodd bynnag, nid oedd y gofal a ddarparwyd yn cael ei gofnodi bob amser ac roedd bylchau yn y cofnodion gan fod aelodau'r staff yn cwblhau nodiadau'n ôl-weithredol.

3.75 Roedd matresi pwyso wedi'u darparu i gleifion yr aseswyd bod eu hangen arnynt.

Gofal a Hylendid Personol

3.76 Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da a bod eu hanghenion gofal a hylendid personol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, ni welsom ofal y geg yn cael ei ddarparu gan aelodau'r staff a nodwyd un claf a cheg sych iawn gennym.

3.77 Roedd llawer o'r cleifion ar y ward yn gwisgo eu dillad eu hunain ac roedd y rhain yn ymddangos yn lân. Fodd bynnag, roedd nifer o gleifion yn gwisgo gynau, ac er bod rhai yn disgwyl i gael eu cludo i'r theatr, nid oedd rheswm amlwg i eraill fod yn gwisgo gŵn yn hytrach na'u dillad eu hunain.

3.78 Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu ymolchi a glanhau eu dannedd mor aml ag yr oeddent yn dymuno. Fodd bynnag, ni welsom y cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd.

3.79 Fe'n hysbyswyd gan aelodau staff bod y dillad gwely a llinellau yn broblem ar foreau dydd Llun gan fod cyflenwad annigonol. Gwelsom dystiolaeth o'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar gleifion ar fore ein hymweliad gan nad oedd dillad gwely glân ar y ward am bedair awr. Nid oedd un claf yn gallu dychwelyd i'w wely ar ôl cawod gan na allai aelodau staff ail-wneud ei wely gan nad oedd dillad gwely glân ar gael.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

3.80 Gwelsom gleifion yn cael eu cynorthwyo i ddefnyddio'r toiled yn y dull o'u dewis mewn ffordd synhwyrol a sensitif. Roedd yn ymddangos bod aelodau'r staff yn ymwybodol o'r cymorth yr oedd ar bob claf ei angen.

3.81 Roedd comodau ar gael ar y ward. Roedd y cwbl wedi cael eu glanhau'n briodol ac roedd arwyddion amlwg i ddynodi i aelodau'r staff eu bod yn lân ac yn barod i'w defnyddio.

Seinyddion

3.82 Ni chodwyd unrhyw broblemau yn ymwneud â seinyddion gan y cleifion. Fodd bynnag, nodwyd wrth arsylwi nad oedd seinyddion yr holl gleifion ar y ward o fewn eu cyrraedd a bod aelodau'r staff weithiau'n cymryd amser hir i ymateb i seinyddion.

Cyfathrebu

3.83 Roedd siaradwyr Cymraeg ar gael ar y ward ac roedd yr aelodau staff y siaradwyd â hwy yn ymwybodol o Language Line. Fodd bynnag, dywedodd aelodau'r staff wrthym eu bod yn gofyn i aelodau'r teulu gyfieithu ieithoedd eraill oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i gael gafael ar gyfleuster Language Line.

3.84 Nid oedd unrhyw gymhorthion cyfathrebu fel Braille neu system dolen sain ar gael ar y ward i gynorthwyo'r cleifion hynny â namau ar y synhwyrau.

3.85 Fel y nodwyd yn flaenorol, dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy fod aelodau'r staff yn eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth.

Rheoli Meddyginiaeth a Rheoli Poen

3.86 Ni chododd y cleifion y siaradwyd â hwy unrhyw faterion yn ymwneud â rheoli poen ac roedd sgoriau asesu poen ar gael ar y siartiau NEWS¹⁰; fodd bynnag, nid oedd y sgoriau'n cael eu cwblhau'n gyson er mwyn gallu asesu effeithiolrwydd yr analgesia¹¹, er bod y cleifion yn derbyn meddyginiaeth reolaidd.

3.87 Yn ystod y rownd feddyginiaeth, gwelsom aelodau staff yn gadael meddyginiaeth ar y byrddau wrth ymyl y gwelyau heb aros i'w goruchwylio yn ei chymryd. Nodwyd gennym hefyd bod y cwpwrdd cyffuriau a'r oergell gyffuriau yn yr ystafell feddyginiaeth yn cael eu gadael heb eu cloi. Hysbyswyd aelodau staff y ward am hyn ar unwaith.

¹⁰ Mae'r *National Early Warning Score* (NEWS) yn darparu canllawiau cenedlaethol ar safoni arwyddion critigol i gleifion yn yr amgylchedd aciwt. I unrhyw glaf â salwch aciwt, mae ymateb cyflym, effeithlon a chyson yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau clinigol gorau posibl. Y rhesymeg wrth wraidd NEWS yw y dylid annog sefydliadau i fabwysiadu'r dull safonol hwn ar draws y GIG.

¹¹ Unrhyw aelod o'r grŵp o gyffuriau a ddefnyddir i leddfu poen yw analgesia.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

3.88 Roedd system Blaylock yn cael ei defnyddio ar y ward. Diben y system yw sicrhau bod y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn dechrau pan dderbynnir y cleifion i'r ward.

3.89 Dywedodd llawer o gleifion y siaradwyd â hwy fod aelodau'r staff wedi rhoi gwybodaeth iddynt am bryd y gallent ddisgwyl gadael y ward, neu'r hyn fyddai'n digwydd pan roeddent yn gadael y ward.

Gweithgareddau

3.90 Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd unrhyw ystafell dydd ar gael i'r cleifion ar y ward. Roedd setiau teledu ar gael ym mhob cilfach ac roedd y rhain ymlaen yn barhaus yn ystod ein hymweliad. Dywedodd rhai o'r cleifion bod sŵn cyson y setiau teledu yn achosi rhwystredigaeth. Fe'n hysbyswyd bod rownd bapur wirfoddol yn dod i'r ward bob bore. Fodd bynnag, nid oedd dim arall i ddiddanu na gweithgareddau ar gael i'r cleifion.

4. Argymhellion

4.1 Darparwyd canfyddiadau ac argymhellion cysylltiedig ar ffurf adborth llafar trwy gydol yr arolygiad ac yn fwy ffurfiol yn y cyfarfod adborth a gynhaliwyd ar ddiwedd ail ddiwrnod yr ymweliad. Hefyd, hysbyswyd y Bwrdd lechyd am unrhyw bryderon uniongyrchol a oedd yn deillio o'r arolygiad trwy lythyr i'r rheolwyr, yn dilyn yr arolygiad, fel y gellid cymryd camau ar unwaith.

4.2 O ystyried y canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad hwn, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Cyfeirnod	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
Amgylchedd y Ward		
1.1	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu trefniadau storio ar y wardiau i sicrhau y gellir storio offer ac eiddo cleifion ac aelodau staff yn briodol.	3.2, 3.3
1.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau nad oes annibendod o flaen yr allanfeydd tân ar y wardiau er mwyn i bobl allu gadael y ward yn ddiogel mewn argyfwng.	3.2, 3.48
1.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod mesurau ar waith i sicrhau y cynhelir preifatrwydd ac urddas cleifion pan fyddant yn defnyddio'r toiledau ar y wardiau.	3.4
1.4	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r defnydd o gilfachau unrhyw er mwyn sicrhau y gwneir pob ymdrech i osgoi unrhyw ddiffyg cydymffurfiaid.	3.6
1.5	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r amgylchedd ar Ward C a sicrhau y gwneir unrhyw waith ailwampio.	3.47
1.6	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y rhoddir mesurau ar waith i hysbysu eraill bod gofal personol a thriniaeth yn cael eu darparu y tu ôl i lenni sydd wedi'u cau.	3.51
Agwedd ac Ymddygiad y Staff, a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas		
2.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cael eu hatgoffa bod yn rhaid i bob cysylltiad wyneb yn wyneb â'r cleifion fod yn barchus, gan gynnwys annerch cleifion gan ddefnyddio'r enw maent yn ei ddewis.	3.9
2.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd disgresiwn wrth drafod gwybodaeth sensitif.	3.10, 3.54
2.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn gwisgo bathodynau adnabod fel ffordd o nodi pwy ydynt pan fyddant ar ddyletswydd.	3.12, 3.56

Cyfeirnod	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
Rheoli Cleifion sy'n Ddryslyd Neu Sydd â Dementia		
3.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod arwyddion mawr ar gael ar gyfleusterau cleifion, fel ystafelloedd ymolchi a thoiledau.	3.14
Cynllunio a Darparu Gofal		
4.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn a'u diweddarau'n rheolaidd gan aelodau'r staff er mwyn cyfrannu at gynllun gofal y cleifion.	3.15, 3.59
4.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan bob claf mewnol gynllun gofal sydd wedi'i addasu i anghenion penodol y claf, a bod y cynllun gofal hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.	3.16, 3.62
4.3	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol bod cleifion, a'u perthnasau pan yn briodol, yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yn llawn mewn trafodaethau ynglŷn â'u triniaeth a'u cynllun gofal sydd wedi'u cofnodi.	3.17, 3.41, 3.44, 3.62
4.4	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gwybodaeth am rowndiau SAFE yn cael ei chofnodi yng nghofnodion unigol y cleifion.	3.61
4.5	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau'r staff yn cwblhau siartiau rowndiau SAFE fel mater o drefn.	3.61
Rheoli Cofnodion		
5.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau staff yn cwblhau nodiadau cleifion ar unwaith yn dilyn gofal, triniaeth neu brydau bwyd ac ati.	3.18, 3.33, 3.64, 3.74
5.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl ffurflenni DNAR yn cael eu cwblhau'n llawn ac yn cynnwys tystiolaeth o drafodaethau gyda'r claf a/neu deulu'r claf.	3.20, 3.65
5.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau dogfennau nyrsio eglur wedi'u sefydlu ar y wardiau.	3.63
Hylif a Maeth		
6.1	Dylai'r Bwrdd lechyd gynnal adolygiad o amseroedd gweini bwyd er mwyn sicrhau y ceir bylchau priodol rhwng y tri phrif bryd bwyd.	3.21, 3.66
6.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod nyrs gofrestredig ar bob shift yn goruchwyllo amser prydau bwyd a/neu ei bod yn atebol am y ffordd y cynhelir amser prydau bwyd.	3.22
6.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu paratoi'n briodol cyn amser prydau bwyd ar y ward, gan gynnwys eu cynorthwyo i eistedd mewn ffordd fwy cyfforddus a glanhau/clirio byrddau wrth ymyl y gwely, fel y gallant gyrraedd eu bwyd yn hawdd.	3.22, 3.67

Cyfeirnod	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
6.4	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o ddiben cywir y fenter hambyrddau coch, sef nodi cleifion sydd ag angen cymorth i fwyta.	3.23
6.5	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion sydd angen cymorth yn ei dderbyn cyn gynted ag y bydd eu bwyd yn cael ei weini.	3.24
6.6	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu goruchwyllo amser prydau bwyd hyd yn oed os ydynt yn gallu bwyta'n annibynnol.	3.24
6.7	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau priodol o'r staff yn casglu hambyrddau cleifion yn dilyn amser prydau bwyd fel y gellir asesu a chofnodi faint o fwyd mae'r cleifion wedi ei fwyta.	3.25
6.8	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod dulliau ar waith i wneud yn siŵr bod yr holl fwyd a archebir ar gyfer cleifion yn cael ei gyflenwi i'r wardiau.	3.68
6.9	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl fwyd a roddir i gleifion ar y wardiau yn cael ei weni ar y tymheredd cywir.	3.68
6.10	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau'r staff yn cwblhau siartiau bwyd a hylif gan fel mater o drefn.	3.25, 3.70
6.11	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau'r staff yn annog cleifion i yfed yn rheolaidd.	3.26, 3.71
6.12	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd peidio ag amharu ar gleifion yn ystod yr amser pryd bwyd wedi'i ddiogelu.	3.66
6.13	Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried sefydlu system ar Ward C i gynorthwyo aelodau'r staff i nodi pa gleifion sydd ag angen cymorth i fwyta.	3.69
Briwiau Pwyso		
7.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod croesau diogelwch yn cael eu cwblhau'n llawn a'u diweddarau'n rheolaidd gan aelodau'r staff.	3.27
7.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl asesiadau Waterlow yn cael eu cwblhau'n llawn a'u diweddarau ar gyfer cleifion y mae eu cyflwr clinigol yn newid.	3.28, 3.73
7.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau yr eir i'r afael â'r cydbwysedd rhwng gorffwys a'r perygl o niwed yn sgil briwiau pwyso er mwyn sicrhau y darperir gofal diogel a phriodol i gleifion. Dylid cofnodi'r rhesymau am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio'n llawn â'r bwndel SKIN wedyn.	3.28
Gofal a Hylendid Personol		
8.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o bob agwedd ar ofal personol y cleifion.	3.31, 3.76

Cyfeirnod	Argymhelliad	Cyfeirnod Paragraff
8.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y rhoddir cyfle i bob claf olchi ei ddwylo cyn amser prydau bwyd.	3.32, 3.78
8.3	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r broses bresennol ar gyfer darparu dillad gwely glân i wardiau er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol ar gael bob amser.	3.34, 3.79
8.4	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain pan yn bosibl.	3.77
Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach		
9.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y sefydlir dull cyson o lanhau comedau yn effeithiol a bod arwydd amlwg i ddynodi bod y comôd yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.	3.37, 3.82
Seinyddion		
10.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion seinydd sy'n gweithio ac y gallant ei gyrraedd yn rhwydd.	3.82
10.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod aelodau'r staff yn ceisio ateb seinyddion yn brydlon neu'n rhoi esboniad i gleifion ac yn tawelu eu meddwl os na allant wneud hyn oherwydd eu bod yn brysur.	3.82
Cyfathrebu		
11.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cymhorthion cyfathrebu ar gael ar y wardiau i gynorthwyo cleifion â namau ar y synhwyrâu a bod aelodau'r staff yn ymwybodol ohonynt.	3.40, 3.84
Rheoli Meddyginiaeth a Rheoli Poen		
12.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y cynhelir asesiad poen yn syth ar ôl nodi bod claf mewn poen, ac y rhoddir cynllun gweithredu ar waith sy'n cael ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd.	3.42, 3.86
12.2	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau ar waith i liniaru'r perygl y gallai cleifion a phersonél heb ganiatâd gael gafael ar feddyginiaeth.	3.43, 3.87
12.3	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod dulliau ar waith i sicrhau bod aelodau staff yn goruchwyllo cleifion pan fyddant yn cymryd eu meddyginiaeth, fel nad yw'n cael ei gadael heb ei goruchwyllo ar y cypyrddau wrth ymyl gwelyau'r cleifion.	3.87
Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion		
13.1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion, a'u perthnasau pan yn briodol, yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ar gyfer eu rhyddhau.	3.44
Gweithgareddau		
14.1	Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried ffyrdd o ddarparu gweithgareddau priodol i gleifion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty.	3.46, 3.90

5. Y Camau Nesaf

5.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion allweddol a amlygwyd, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n eglur pryd a sut y rhoddwyd sylw i'r problemau a nodwyd gennym ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy, yn ogystal ag amserlenni ar gyfer sicrhau nad yw'r problemau yn cael eu hailadrodd mewn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.

5.2 Yna, cyhoeddir y cynllun gweithredu hwn ar wefan AGIC a'i fonitro yn rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu weithiwr cyflogedig.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Prif swyddogaeth AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da.

Adolygir gwasanaethau yn unol ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddus. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig pan ymddengys bod methiannau systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Yn ogystal, AGIC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwagedd.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007.
- Goruchwyliaeth Statudol Bydwagedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgysylltiol o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

Y Cefndir a'r Fethodoleg ar Gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol

Dechreuwyd cynnal rhaglen Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol ym mis Tachwedd 2011.

Mae'r tîm arolygu yn cynnwys un o arolygwyr AGIC, dwy nyrs brofiadol sy'n ymarfer ac adolygwr 'lleyg'.

Mae'r tîm adolygu yn defnyddio nifer o 'dulliau arolygu' i gasglu gwybodaeth am ward/uned mewn ysbyty. Yn ystod yr ymweliadau, bydd y tîm yn arsylwi, yn siarad â chleifion, gofalmwyr a pherthnasau ac yn edrych ar gofnodion iechyd. Mae'r dulliau arolygu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol i'w gweld ar ein gwefan.

Ar ôl i ysbyty gael ei arolygu, caiff adroddiad ei lunio a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC wedyn, i fynd i'r afael â'r materion allweddol a amlygwyd.

Adolygwyd nifer o adroddiadau allanol a gyhoeddwyd gan sefydliadau megis Cymdeithas y Cleifion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â gwybodaeth gan y cyhoedd ac arolygiadau blaenorol AGIC. Ar sail y wybodaeth hon, datblygwyd dull arolygu sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Amgylchedd y claf.
- Agwedd/ ymddygiad staff / eu gallu i ddarparu gofal ag urddas.
- Cynllunio a darparu gofal.
- Briwiau pwyso.
- Hylif a maeth.
- Gofal a hylendid personol.

- Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach.
- Seinyddion.
- Cyfathrebu.
- Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen.
- Rheoli cofnodion.
- Rheoli cleifion sy'n ddryslyd.
- Gweithgareddau a symbyliad.
- Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'r arolygiadau hyn wedi eu cynllunio i adolygu'r gofal a'r driniaeth a dderbynnir gan bob claf yn yr ysbyty, yn enwedig cleifion hŷn y mae ymchwil wedi profi y gallant fod yn arbennig o agored i niwed tra eu bod yn aros yn yr ysbyty.

Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Mae'r ddogfen hon yn dangos sut y mae'r themâu a adolygir yn ystod arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol yn cyd-fynd â 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.'

Thema Urddas a Gofal Hanfodol	Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol	Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
Amgylchedd y ward	Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5). Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).	12. Yr Amgylchedd Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau er mwyn darparu amgylcheddau sydd: d) yn ddiogel ac yn sicr; e) yn diogelu preifatrwydd.
Agwedd ac ymddygiad y staff a'u gallu i ddarparu gofal ag urddas	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael: a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol. 10. Urddas a pharch Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a

		dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni. 26. Hyfforddi'r gweithlu a datblygu sefydliadol Mae cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod eu gweithlu yn cael cymorth priodol i'w galluogi: a) i gynnal a datblygu cymwyseddau er mwyn iddynt gyrraedd eu holl botensial; b) i gymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; c) i gael arfarniad personol blynyddol a chynllun datblygu personol i'w galluogi i ddatblygu eu rôl; d) i ddangos eu bod yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus; ac e) i gael cyfleoedd i ddatblygu eu harferion cydweithredol a'u sgiliau gweithio mewn tîm.
Rheoli cleifion sy'n ddryslud neu sydd â dementia	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5). Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael: a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol. 8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.

Cynllunio a darparu gofal	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5). Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14). Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).	7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol: a) sy'n seiliedig ar arferion gorau a chanllawiau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Fframweithiau Gwasanaethau Cenedlaethol, ac yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA), a chyrff proffesiynol; b) sy'n cydymffurfio o'r cychwyn â chyfarwydddebau diogelwch a chlinigol; ac c) a amlygir gan weithdrefnau ar gyfer cofnodi ac archwilio cydymffurfiaeth a diffyg cydymffurfiaeth ag unrhyw un o'r uchod. 8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau; b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi; a c) drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyrff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
Cyfathrebu	Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10). Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14). Yr hawl i beidio â	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael: a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu

	chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).	hawliau dynol. 9. Gwybodaeth a chaniatâd cleifion Bydd cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: a) drwy roi gwybodaeth hygyrch iddynt yn brydlon am eu cyflwr, eu gofal, eu meddyginiaeth, eu triniaeth a'u trefniadau cymorth; b) drwy ddarparu cyfleoedd i drafod a chytuno ar opsiynau; c) drwy drin eu gwybodaeth yn gyfrinachol; d) drwy sicrhau eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn rhoi caniatâd, yn unol â'r arferion gorau; a e) drwy eu hasesu a'u gwarchod yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 pan fydd yn briodol. 18. Cyfathrebu effeithiol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol, hygyrch, priodol a phrydlon: b) â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a fformatiau priodol; c) ynghylch cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr; e) gan ymateb i anghenion ieithyddol ac anghenion cyfathrebu pawb.
Hylif a maeth	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).	14. Maeth Bydd cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau: a) bod anghenion unigol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth o ran maeth a hylif yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu; b) bod unrhyw gymorth sydd ei angen i fwyta ac yfed neu i fwydo a llyncu yn cael ei nodi a'i ddarparu; Lle y darperir bwyd a diod:

		d) y cynigir dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n diwallu anghenion maethol, therapiwtig, crefyddol a diwylliannol pawb; a e) bydd bwyd a diod ar gael 24 awr y dydd.
Briwiau pwyso	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).	8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalmwr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.
Gofal a hylendid personol	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael: a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol. 10. Urddas a pharch Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni. 8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalmwr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n

		brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau; b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi.
Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael: a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol. 8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalcwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau; b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi. 10. Urddas a pharch Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.
Seinyddion	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3). Yr hawl i ryddid a	7. Gofal sy'n ddiogel ac yn glinigol effeithiol Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol: b) sy'n cydymffurfio o'r cychwyn â

	diogelwch (Erthygl 5).	chyfarwydddebau diogelwch a chlinigol. 8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalcwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.
Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen	Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).	8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalcwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau. 15. Rheoli meddyginiaethau Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau: a) eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau trwyddedu a chanllawiau arferion da ar holl agweddau rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir; b) bod clinigwyr yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i ragnodi, dosbarthu a rhoi meddyginiaethau yn eu maes ymarfer unigol; a c) bod cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalcwyr a staff yn cael yn cael yn brydlon gyngor a gwybodaeth briodol a hygyrch ar feddyginiaethau, ac ar adrodd am ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau.
Rheoli cofnodion	Yr hawl i barchat fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).	20. Rheoli cofnodion Mae cyrff a gwasanaethau yn rheoli eu holl gofnodion yn unol â deddfwriaeth a

		chanllawiau i sicrhau eu bod: a) yn cael eu dylunio, eu paratoi, eu hadolygu a'u dosbarthu i ddiwallu'r anghenion gofynnol; b) yn cael eu storio'n ddiogel, eu cynnal yn sicr, eu hadfer yn brydlon a'u gwaredu'n briodol; c) yn gywir, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfredol, yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol; a d) yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol.
Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty	Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5). Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).	8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau; b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ailalluogi; a c) drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyrff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
Gweithgaredau	Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10). Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).	8. Cynllunio a darparu gofal Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr: b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ailalluogi.